# 4.0 Gwirfoddolwyr

Monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ymhlith Gwirfoddolwyr

## Trosolwg

1. Beth mae monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ei olygu?
2. Pam mae angen i mi fonitro data cydraddoldeb ac amrywiaeth?
3. Beth ddylwn ni fod yn ei fonitro?
4. Sut ydw i'n casglu ac yn cofnodi gwybodaeth?
5. Nid yw ein mudiad yn gweithio gyda phawb, felly oes angen i ni fonitro amrywiaeth?
6. Dim ond nifer bychan o wirfoddolwyr sydd gennym ni; sut gallwn ni gasglu'r data'n ddienw?
7. Gwybodaeth Bellach
8. Atodiad Un

## Beth mae monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ei olygu?

Mae monitro cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ymwneud â chasglu data sensitif am gefndiroedd gwirfoddolwyr.

Rhaid iddo gael ei gofnodi, ei storio, ei ddefnyddio a'i ddiweddaru yn unol â'r gofynion a nodwyd yn y Ddeddf Diogelu Data (Saesneg y unig). Er enghraifft, gellir casglu gwybodaeth am hil, rhywedd, crefydd, oedran, anabledd, rhywioldeb neu iaith.



Llun: Grŵp o gwirfoddolwr

Cefnogi Trydydd Sector Cymru Third Sector Support Wales

Rhaid i fudiadau hefyd sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r GDPR (y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data) wrth gasglu data.

## Pam mae angen i mi fonitro data cydraddoldeb ac amrywiaeth?

Gall monitro'r data hwn helpu mudiad i weld a yw'r amrywiaeth ym mhoblogaeth ei wirfoddolwyr yn adlewyrchu amrywiaeth y gymuned y mae'n gweithio ynddi.

Gall helpu i ddangos a oes unrhyw grwpiau'n cael eu tangynrychioli yn eich poblogaeth o wirfoddolwyr, fel eich bod yn gallu canolbwyntio ar recriwtio yn y meysydd hyn neu addasu rolau gwirfoddoli cyfredol er mwyn annog gwahanol fathau o wirfoddolwyr i ymuno.

Gall rhai ceisiadau cyllido hefyd ofyn i chi adrodd ar eich data cydraddoldeb ac amrywiaeth cyfredol ar gyfer gwirfoddolwyr.

Er mwyn cael cymaint â phosibl o wirfoddolwyr i gydweithredu a darparu data cyfle cyfartal, mae angen i chi fod yn gwbl eglur ynghylch pam mae angen yr wybodaeth hon arnoch, beth fyddwch chi'n ei wneud â hi a sut bydd yn helpu eich mudiad i fod yn fwy cynhwysol.

**Gwybodaeth**

Nid oes gofyniad cyfreithiol i gasglu'r wybodaeth hon gan wirfoddolwyr, ond caiff ei weld fel arfer gorau am ei fod yn dangos ymrwymiad i roi cyfle cyfartal i bob gwirfoddolwr.

## Beth ddylwn ni fod yn ei fonitro?

Gall hyn amrywio yn ôl maint y prosiect, ei amcanion a'r rhesymau dros fonitro. Nid oes angen casglu data ar yr holl nodweddion gwarchodedig; meddyliwch am eich anghenion a beth fyddwch chi'n ei wneud â'r data. Fel canllaw cyffredinol, os na fyddwch chi'n defnyddio'r data, peidiwch â'i gasglu!

# Sut ydw i'n casglu ac yn cofnodi gwybodaeth?

Mae nifer o wahanol ffyrdd o wneud hyn. Mae rhai enghreifftiau wedi'u nodi isod, gyda chyfyngiadau a manteision pob un wedi'u crynhoi. Efallai y bydd rhai'n fwy addas na'i gilydd ar gyfer eich prosiect neu fudiad:

## Casglu a chofnodi gwybodaeth yn ddienw wrth recriwtio – dim enwau na chyfeiriadau'n gysylltiedig â'r wybodaeth.

| Manteision | Cyfyngiadau |
|---|---|
| Cwbl ddienw, diogelu gwybodaeth gwirfoddolwyr | Ni allwch olrhain newidiadau i'r data wrth i'ch poblogaeth o wirfoddolwyr newid (e.e. pan fydd gwirfoddolwr yn gadael, ni allwch ddod o hyd i'w ddata penodol er mwyn ei dynnu ymaith) |
| Bydd rhai gwirfoddolwyr yn fwy tebygol o roi gwybodaeth os gallant wneud hynny'n ddienw | Wrth i'r prosiect ddatblygu dros amser, bydd y data'n llai cywir ar gyfer eich poblogaeth gyfredol o wirfoddolwyr. Ni allwch gael cipolwg ar ddata cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer eich poblogaeth gyfredol o wirfoddolwyr |
| Gallwch chi adrodd yn hawdd ar yr holl ddata cydraddoldeb ac amrywiaeth sydd erioed wedi'i gasglu am wirfoddolwyr | |

## Casglu gwybodaeth a manylion gwirfoddolwyr wrth recriwtio, ond eu storio ar wahân gyda chod dienw.

Storio data cydraddoldeb ac amrywiaeth ar daenlen neu gronfa ddata gyda chod adnabod dienw a storio'r cod a manylion y gwirfoddolwr ar wahân. Pan fydd gwirfoddolwyr yn gadael, gallwch chi adnabod eu codau a thynnu eu data cydraddoldeb ac amrywiaeth o'ch cronfa ddata.

**Cefnogi Trydydd Sector Cymru** Third Sector Support Wales

| Manteision | Cyfyngiadau |
|---|---|
| Gallwch storio gwybodaeth yn ddienw ac yn ddiogel | Proses gymhleth - sy'n cynnwys y cam gweinyddol canolraddol o aseinio codau a storio'r rhestr o godau sydd wedi'u haseinio i enwau'n ddiogel |
| Gallwch dynnu gwybodaeth pan fydd gwirfoddolwr yn gadael er mwyn sicrhau bod eich data yn cynrychioli poblogaeth eich gwirfoddolwyr yn gywir | Mae'n dibynnu ar gael pobl i gofio tynnu'r data o 'hen' wirfoddolwyr sy'n defnyddio'r cod |
| Gallwch gael cipolwg ar y data cydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer poblogaeth gyfredol eich gwirfoddolwyr | |

## Casglu data blynyddol mewn arolwg dienw.

Casglu data cydraddoldeb ac amrywiaeth gan wirfoddolwyr gydag arolwg gwirfoddolwyr blynyddol.

| Manteision | Cyfyngiadau |
|---|---|
| Mae'r holl ddata'n ddienw ac yn dangos cipolwg ar sampl o wirfoddolwyr ar adeg yr arolwg | Dim ond yn dangos data ar gyfer sampl o boblogaeth eich gwirfoddolwyr (h.y. y rheini sy'n ymateb) ac nid yr holl boblogaeth |
| Hawdd ei gasglu a dim pryderon ynghylch storio gwybodaeth heb ei defnyddio | Gall bod yn anodd annog gwirfoddolwyr i gwblhau'r arolwg |
| Cyfle i gofnodi ac adrodd ar ddata gwirfoddolwyr arall er mwyn helpu i wella rhaglen e.e. boddhad cwsmer | |

## Gwybodaeth a gofnodir gan y gwirfoddolwyr eu hunain.

Mae rhai pecynnau meddalwedd ar-lein yn caniatáu i chi roi mynediad diogel, ar-lein i'ch gwirfoddolwyr at y gronfa ddata fel y gallant ddiweddaru'r wybodaeth eu hunain.

| Manteision | Cyfyngiadau |
|---|---|
| Dienw, oherwydd gall gwirfoddolwyr gofnodi'r data eu hunain | Gall ddibynnu ar wirfoddolwyr sy'n ddigon rhagweithiol i ddarparu'r wybodaeth – oni bai bod angen i wirfoddolwyr gofrestru ar y gronfa ddata at ddibenion eraill |
| Gall adrannau fod yn orfodol er mwyn cael cymaint â phosibl o ymatebion | Nid yw bob amser yn glir pwy sy'n gyfrifol am ddiweddaru ymadawyr ar y system |
| Hunan-reoleiddio, nid oes angen i staff barhau i ddiweddaru gwybodaeth | |

**Noder**: Dylid cynnwys opsiwn 'well gennyf beidio â dweud' ym mhob achos.

## Ble ydw i'n cofnodi'r wybodaeth?

Mae amrediad o opsiynau ar gael a allai fod yn addas ar gyfer hyn:

- Cronfa ddata benodol ar gyfer rheoli gwirfoddolwyr (e.e. gwefan Gwirfoddoli Cymru)
- Taenlen Excel bwrpasol
- Cronfa ddata codi arian benodol (e.e. The Raiser Edge)
- Cronfa ddata Access
- Offer ar-lein

Y pethau pwysicaf i'w hystyried yw sut byddwch chi'n defnyddio'r wybodaeth honno unwaith y bydd wedi'i storio, beth fydd yn gweithio i'ch mudiad, a gofynion polisïau diogelu data eich mudiad, o ran storio data.

## Beth yw'r Ystyriaethau Diogelu Data?

- Bydd gan fudiadau unigol eu polisi diogelu data eu hunain, yn unol â'r ddeddfwriaeth gyfredol, a dylai unrhyw ddata cydraddoldeb ac amrywiaeth gael ei gasglu a'i storio'n unol â'r ddeddfwriaeth.
- Mae'r wybodaeth hon yn gyfrinachol, felly ni ddylai fod ar gael na'n hygyrch i'r cyhoedd. Yn ddelfrydol, ni ddylai fod ar gael i unrhyw un nad yw ei hangen ar gyfer ei swydd.
- Yr arfer gorau yw gosod gofyniad ar staff a/neu wirfoddolwyr a fydd â mynediad at yr wybodaeth hon i lofnodi polisi cyfrinachedd.
- Dylai fod opsiwn optio allan, neu 'well gennyf beidio â dweud' ar y ffurflen. Rhaid i chi egluro wrth wirfoddolwyr pam rydych chi'n casglu'r wybodaeth hon.

- Nid yw'n foesegol i gasglu data os na fyddwch chi'n ei ddefnyddio

## Beth ydw i'n ei wneud â'r data sydd wedi'i gasglu?

Mae nifer o ddefnyddiau i'r data hwn, gan gynnwys:

- Adroddiadau blynyddol
- Amlygu grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol er mwyn targedu ymgyrchoedd recriwtio gwirfoddolwyr yn y dyfodol
- Cymharu â data demograffig lleol i ddangos arferion gorau ac ymrwymiad y mudiad i gynhwysiant
- Yn aml, mae gofyniad ar geisiadau grant a'r rheini sy'n tendro grantiau i gasglu a chyflwyno'r data hwn

## Nid yw ein mudiad yn gweithio gyda phawb, felly oes angen i ni fonitro amrywiaeth?

Hyd yn oed os mai dim ond gydag adran gyfyngedig o'r boblogaeth rydych chi'n gweithio, fel myfyrwyr neu bobl â chyflwr iechyd, efallai yr hoffech barhau i geisio cael yr amrywiaeth ehangaf o wirfoddolwyr sy'n gweddu â'ch cenhadaeth. Os felly, bydd angen i chi fonitro hyn.

Efallai y bydd hi'n fwy priodol i gymharu amrywiaeth eich gwirfoddolwyr gyda'r amrywiaeth ymhlith poblogaeth darged berthnasol (fel y boblogaeth o fyfyrwyr, neu'r boblogaeth sydd wedi'i heffeithio gan gyflwr iechyd penodol), yn hytrach na data ar gyfer y gymuned leol yn ei chyfanrwydd.

## Dim ond nifer bychan o wirfoddolwyr sydd gennym ni; sut gallwn ni gasglu'r data'n ddienw?

Gall ymdrin â data cyfle cyfartal pan mae dim ond nifer bychan o wirfoddolwyr sydd gennych chi fod yn heriol am fod risg y gall unigolion gael eu hadnabod mewn unrhyw adroddiad neu ddadansoddiad o'r data.

Mae tri awgrym posibl ar gyfer datrys hyn:

- Casglwch ddata dros nifer o flynyddoedd er mwyn cynyddu cyfanswm y rhifau. Gellir ei ddadansoddi wedyn ar gyfer gwirfoddolwyr dros ryw 5 neu 10 mlynedd dywedwch, ar sail dreigl
- Cyfuno data'r gwirfoddolwyr a data'r staff er mwyn cynyddu cyfanswm y nifer ac adrodd ar sail gyfunol

Gwnewch ddadansoddiad syml yn unig, trwy arsylwi, disgrifio a nodi lle mae tangynrychiolaeth yn bodoli. Er enghraifft, efallai y byddai modd i chi nodi tangynrychiolaeth o ran iaith, ardal ddaearyddol, oedran neu rywedd pan fyddai eich tîm gwirfoddoli'n cael ei gymharu â'r cleientiaid rydych chi'n gobeithio eu 'paru' nhw gyda neu eu hadlewyrchu.

## Gwybodaeth Bellach

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth (Saesneg yn unig)**
**Llywodraeth y DU**
https://www.gov.uk/government/organisations/monitor/about/equality-and-diversity

**Taflenni Gwybodaeth Ychwanegol**
**Cefnogi Trydydd Sector Cymru**

4.6 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant mewn Gwirfoddoli

Cefnogi Trydydd Sector Cymru
Third Sector Support Wales

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â **https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/**

## Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.

# Atodiad Un

**Enghraifft o ddata a gesglir at ddibenion monitro**:

Cesglir y data canlynol gan Barnado's fel rhan o'i system monitro Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

**Dadansoddiad rhywedd**

- Well gennyf beidio â dweud
- Dyn (gan gynnwys dyn trawsryweddol)
- Menyw (gan gynnwys menyw drawsryweddol)
- Hunaniaeth rywedd arall
- Heb nodi

**Dadansoddiad Ethnigrwydd**

- Well gennyf beidio â dweud
- Asiaidd
- Bangladeshaidd
- Indiaidd
- Pacistanaidd
- Asiaidd Arall
- Du
- Arabaidd
- Affricanaidd
- Arabaidd Arall
- Caribïaidd
- Du Arall
- Tsieineaidd
- Tsieineaidd Arall
- Cefndir ethnig cymysg
- Asiaidd a Gwyn
- Du Affricanaidd a Gwyn
- Du Caribïaidd a Gwyn
- Cymysg Arall
- Gwyn
- Gwyn Arall
- Unrhyw un arall
- Heb nodi

**Dadansoddiad Rhywioldeb**

- Well gennyf beidio â dweud
- Deurywiol
- Menyw hoyw/lesbiaidd
- Dyn hoyw
- Heterorywiol/syth
- Arall
- Panrywiol
- Heb nodi

**Dadansoddiad Anabledd**

- Well gennyf beidio â dweud
- Oes
- Nac oes
- Ddim yn gwybod
- Heb nodi